Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**CLA538 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth ar gyfer oedolyn neu blentyn y mae'n ddyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ddiwallu eu hanghenion a nodwyd ac i greu cynllun cymorth i ofalwr y mae'n ddyletswydd arnynt i ddiwallu ei anghenion a nodwyd. Mae'r Rheoliadau hyn yn amlinellu swyddogaethau awdurdodau lleol o ran cynllunio gofal a chymorth a threfniadau adolygu.

## 1. Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2.

## 2. Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 (sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad) mewn perthynas â'r offeryn hwn.

(i) Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n amlinellu swyddogaethau awdurdodau lleol o ran cynllunio gofal a chymorth a threfniadau ar gyfer adolygiad, yn rhan o becyn o reoliadau a wnaethpwyd i weithredu Deddf 2014.

(ii) Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol ynghylch diwallu anghenion a nodwyd yn gymhleth. Mae'r Deddfau a ganlyn yn deddfu ar wahân ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr:-

- Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990
- Deddf Plant 1989
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995

— Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
— Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004

(iii) Credir bod hyn yn arwain at aneffeithlonrwydd a dulliau darniog o fewn y system bresennol, sy'n achosi anawsterau i ddefnyddwyr gwasanaethau, ymarferwyr, cyrff rheoleiddio a'r farnwriaeth wrth geisio cymhwyso'r gyfraith yn deg ac yn gyfartal.

(iv) Mae Deddf 2014 yn cyflwyno mwy o gysondeb o ran arferion ledled Cymru drwy gyflwyno newidiadau i'r modd y caiff cynlluniau gofal a chymorth eu paratoi a'u cynnal ar gyfer oedolion a phlant, a'r modd y caiff cynlluniau cymorth eu paratoi ar gyfer gofalwyr.

## 3. Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn hwn yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2015 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd yn adran 2 uchod.